



Copi Dosbarth



Ffeil-o-iaith



Pwnc: _____



Cynnwys

CONTENTS

| | Tudalen |
|--|----------------|
| Sut i osod eich gwaith - How to set out your work | 3 |
| Y Dyddiad yn Gymraeg - The Date in Welsh | 4 |
| Defnyddio'r Geiriadur / Yr Wyddor - Using a Dictionary / Welsh Alphabet | 5 |
| Amser - Time | 6 |
| 8 Ymddygiad Darllen - 8 Reading Behaviours | 7 |
| Gwerthuso'ch gwaith - Evaluating your Work | 8 |
| SPLAT - Welsh Medium Policy for Marking Language | 9 |
| S - Sillafu - Spelling | 10-13 |
| L - Rhywbeth o'i Le - Something else wrong - Common Mistakes | 14-18 |
| A - Atalnodi - Punctuation | 19 |
| T - Treigladau - Mutations | 20-21 |
| Deall Cyfarwyddiadau Cymraeg - Understanding Instructions in Welsh | 22-23 |
| Arddodiaid - Prepositions | 24-25 |
| Ansoddeiriau - Adjectives | 26-27 |
| Cymariaethau / Cyffelybiaethau - Comparisons / Similes | 28 |
| Enwau Anifeiliaid - Names of Animals | 29 |
| Berfau - Verbs | 30-36 |
| Enwau Llefydd y Byd - World Placenames | 37 |
| Map Cymru - Map of Wales | 38 |
| Enwau Llefydd Canolbarth Cymru - Mid-Wales Placenames | 39 |
| Lliwio Iaith / Idiomaau - Using Interesting Language / Idioms | 40 |

SUT I OSOD EICH GWAITH YSGOL

HOW TO SET OUT YOUR SCHOOL WORK

Gwaith Dosbarth

11^{eg} o Ragfyr

Sut i osod eich gwaith

Dechreuwch ysgrifennu paragraff newydd wrth YMYL chwith y dudalen. Defnyddiwch briflythyren ar ddechrau bob brawddeg ac atalnod llawn ar ddiwedd bob brawddeg.


Y Paragraff (← is-bennawd)

Dylech chi ddechrau paragraff newydd os rydych newid topig - lle, safbwynt, amser...

Gludwch ddarnau o bapur yn eich llyfr yn daclus, gan adael digon o le i'w labelu.

Gadewch ddigon o le yn eich gwaith. Mae angen lle i'r athrawon marcio'r gwaith

Gareth Bale



YSGRIFENNU'R DYDDIAD YN GYMRAEG

TREFNOLION 1^{af}-31^{ain}

| Byrfodd | Trefnol | Byrfodd | Trefnol | Byrfodd | Trefnol |
|-------------------|-----------|-------------------|----------------------|-------------------|-------------------------|
| 1 ^{af} | cyntaf | 11 ^{eg} | unfed ar ddeg | 21 ^{ain} | unfed ar hugain |
| 2 ^{il} | ail | 12 ^{fed} | deuddegfed | 22 ^{ain} | ail ar hugain |
| 3 ^{ydd} | trydydd | 13 ^{eg} | trydydd ar ddeg | 23 ^{ain} | trydydd ar hugain |
| 4 ^{ydd} | pedwerydd | 14 ^{eg} | pedwerydd ar ddeg | 24 ^{ain} | pedwerydd ar hugain |
| 5 ^{ed} | pumed | 15 ^{fed} | pymthegfed | 25 ^{ain} | pumed ar hugain |
| 6 ^{ed} | chweched | 16 ^{eg} | unfed ar bymtheg | 26 ^{ain} | chweched ar hugain |
| 7 ^{fed} | seithfed | 17 ^{eg} | ail ar bymtheg | 27 ^{ain} | seithfed ar hugain |
| 8 ^{fed} | wythfed | 18 ^{fed} | deunawfed | 28 ^{ain} | wythfed ar hugain |
| 9 ^{fed} | nawfed | 19 ^{eg} | pedwerydd ar bymtheg | 29 ^{ain} | nawfed ar hugain |
| 10 ^{fed} | degfed | 20 ^{fed} | ugeinfed | 30 ^{ain} | degfed ar hugain |
| | | | | 31 ^{ain} | unfed ar ddeg ar hugain |

| | |
|--|---|
| y cyntaf o <u>F</u> ai 2017 | <i>the first of May 2017</i> |
| y pymthegfed o <u>D</u> achwedd 2018 | <i>the fifteenth of November 2018</i> |
| yr wythfed ar hugain o <u>R</u> agfyr 2018 | <i>the twenty eighth of December 2018</i> |

DEFNYDDIO'R GEIRIADUR / YR WYDDOR

Rydyn ni'n defnyddio GEIRIADUR er mwyn:

- Gwybod sut i sillafu gair yn gywir,
- Gwybod beth yw'r gair hwn mewn iaith arall,
- Gwybod ystyr y gair,
- Gwybod beth yw lluosog gair,
- Gwybod sut fath o air yw ef - er enghraifft berf, enw, ansoddair,
- Gwybod ai enw gwrywaidd (eg) neu enw benywaidd (eb) yw.

Yr Wyddor Gymraeg


a b c ch d dd e f ff g ng h i j
l ll m n o p ph r rh s t th u w y

Llafariaid (Vowels)


a e i o u w y (h)

Cytseiniaid (Consonants)

pob llythyren arall...



FAINT O'R GLOCH YW HI?



Faint o'r gloch? ✓

Beth ydy'r amser? ✗

Mae hi'n bump o'r gloch.

Mae hi'n hanner awr wedi chwech.

Mae hi'n chwarter i dri.

***Cofiwch:**


Ceir Treigladd
Meddal ar ôl

'i'

Cofiwch y collnod: o'r gloch

8 Ymddygiad Darllen - 8 Reading Behaviours



| | | |
|---|---|---|
| <p style="text-align: center;">Dwyn i gof</p> <p>"Beth ydw i'n gwybod yn barod am...?"</p> |  | <p style="text-align: center;">Activating prior knowledge</p> <p>"What do I already know about...?"</p> |
| <p style="text-align: center;">Gwirio'r gwaith/testun</p> <p>"Beth yw ystyr y gair hwn?"</p> |  | <p style="text-align: center;">Checking over the work/text</p> <p>"What is the meaning of this word?"</p> |
| <p style="text-align: center;">Gofyn cwestiynau</p> <p>"Pwy?" "Pam?" "Pryd?" "Pa?" "Beth?" "Ble?"</p> |  | <p style="text-align: center;">Asking questions</p> <p>"Who?" "What?" "Why?" "When?" "Where?" "Which?"</p> |
| <p style="text-align: center;">Delweddu a dychmygu</p> <p>"Pe bai hwn yn ffilm, beth fyddet ti'n weld?"</p> |  | <p style="text-align: center;">Visualising</p> <p>"If this were a film what would I see?"</p> |
| <p style="text-align: center;">Gwneud cysylltiadau</p> <p>"Sut mae hwn yn debyg i.../wahanol i...?"</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pethau eraill y byd • Dy fywyd di • Pethau eraill rywt ti wedi darllen |  | <p style="text-align: center;">Making connections</p> <p>"How is this similar/different to...?"</p> <ul style="list-style-type: none"> • Things in the world • Your life • Other things you have read |
| <p style="text-align: center;">Dadansoddi a dod i gasgliad</p> <p>"Sut ydw i'n gwybod hyn?" "Pa gasgliadau alla i ddod atynt?"</p> |  | <p style="text-align: center;">Analysing and inferring</p> <p>"How do I know this?" "What conclusions can I make?"</p> |
| <p style="text-align: center;">Dadansoddi a gwerthuso</p> <p>"Yn fy marn i..." NEU... "Oes rhaid i mi newid y ffordd rydw i'n meddwl?"</p> |  | <p style="text-align: center;">Analysing and evaluation</p> <p>"In my opinion..." OR... "Do I need to change the way I think?"</p> |
| <p style="text-align: center;">Crynhoi</p> <p>"Beth ydy'r pwyntiau mwyaf pwysig yma?"</p> |  | <p style="text-align: center;">Summarising</p> <p>"What are the most important points here?"</p> |

GWERTHUSO'R GWAITH

Ar ôl gorffen eich gwaith neu orffen uned gwaith mae'n bwysig eich bod chi'n edrych yn ôl dros eich gwaith i weld...

- beth wnaethoch chi'n dda.
- beth wnaethoch chi'n dda dros ben.
- beth allwch chi wella a sut.



Geirfa Werthuso Gwaith

Edrych yn ôl

Gwnes i...
Llwyddais i drwy...
Ceisiais i...ond...
Mwynheais i...

Yn ystod yr uned gwaith...

Cynlluniais i...
Deallais i...
Ces i broblem gyda...
Fwynheais i ddim...

Sut i wella

Hoffwn i wella...
Gallwn i wella...

Dylwn i wella...

Roedd ...yn ardderchog
Doedd...ddim cystal


Y ffordd ymlaen

Y tro nesaf...
Bydda i'n ceisio...
Fy nharged yw...

Bydda i...
Fydda i ddim...
erbyn...




GOSOD TARGEDAU 'SMART'

| | | |
|----------|--------------|-----------------|
| S | - SPECIFIC | PENODOL |
| M | - MEASURED | MESURADWY |
| A | - ACHIEVABLE | O FEWN CYRRAEDD |
| R | - REALISTIC | REALISITIG |
| T | - TIME BASED | YN ÔL AMSER |



Polisi Marcio Iaith y Cyfrwng Cymraeg

Dyma'r symbolau y byddwn ni fel athrawon yn eu defnyddio wrth farcio gwaith ein disgyblion. Byddwn yn cylchu unrhyw gamgymeriad ac wedyn yn nodi un o'r symbolau isod ar ei ochr i egluro beth sydd o'i le.

| Symbol | Ystyr y Symbol | Sut i wella |
|---|----------------------------|--|
|  | Sillafu | <ol style="list-style-type: none"> 1. Defnyddiwch y llyfryn yma 2. Gwyliwch bodlediadau sianel Athro Cymraeg 3. Ymarfer sillafu |
|  | Paragraffu | <ol style="list-style-type: none"> 1. Darllenwch dudalen 3 2. Siaradwch â'ch athrawon |
|  | Mae rhywbeth o'i Le | <ol style="list-style-type: none"> 1. Defnyddiwch y llyfryn yma 2. Gwyliwch bodlediadau sianel Athro Cymraeg |
|  | Atalnodi | <ol style="list-style-type: none"> 1. Defnyddiwch y llyfryn yma 2. Gwyliwch bodlediadau sianel Athro Cymraeg |
|  | Treigladau | <ol style="list-style-type: none"> 1. Defnyddiwch y llyfryn yma 2. Gwyliwch bodlediadau sianel Athro Cymraeg |



SILLAFU

Dyma rai geiriau sy'n cael eu camsillafu'n aml...

| | | | |
|---------------------|----------------|-------------------|------------|
| anodd | ffeindio | hwanna | rhywbeth |
| annwyl | ffansio | i fyny | rhywle |
| arbennig | ffordd | llinell | rhywun |
| cyffrous | gaeaf | maen nhw | sut |
| cyrraedd | gofynnodd | mae'n | symud |
| cymryd | gwneud | munud | tafodiaith |
| dweud | hun | nhw | tenau |
| enghraifft | hunan / hunain | penderfynu | wnaeth e |
| enillodd / enillais | hŷn | pennill | ysgrifennu |
| ennill | hwn / hwnnw | prynu | |
| fi | hon / honno | prynodd / prynais | |
| fy | hyn / hynny | | |

Weithiau mae camsillafu yn newid ystyr y gair:

| | | | |
|-----------------------|------------------------|--------------------------|---------------------------------|
| cae (field) | cau (to close) | cannu (to bleach) | canu (to sing) |
| glud (glue) | yn glyd (cosy) | Cymru (y wlad) | Cymry (y bobl) |
| ewin (nail) | ewyn (foam) | gwaeth (worse) | gwaith (work) |
| haul (sun) | hael (generous) | hun (self) | hŷn (older) |
| llun (picture) | llyn (lake) | lliw (colour) | llyw (steering wheel) |
| mae (is/are) | mai ('that') | medr (skill) | metr (metre) |
| melin (mill) | melyn (yellow) | mil (thousand) | mul (donkey) |



DYBLU 'N' ac 'R'

1. Os mae acen (pwyslais) ar y rhan o'r gair lle mae'r 'n' mae'n bosibl fod dwy 'n' neu 'r' ond dim bob tro.

e.e. pennill ond penillion

ennill ond enillodd

| | | | | | | |
|------------|---------|--------|-------|------------|------------|----------|
| arbennig | cynnwys | cynnes | tynnu | hynny | ysgrifennu | diflannu |
| OND | fyny | prynu | crynu | penderfynu | | |

2. Mae 'nt' yn troi yn 'nn' wrth ffurfio lluosog

e.e. punt > punnoedd cant > cannoedd peiriant > peiriannau

3. Un 'n' neu 'r' sydd o flaen - wyr

e.e. ysgrifennwr > ysgrifenwyr gyrrwr > gyrwyr

'F' neu 'FF' ?

Mae gan y ddwy lythyren sŵn gwahanol i'w gilydd

f

'fory

fyny

fel

fe

fi

felly

gorfod

hefyd

gofyn

gafael

ff

ffenstr

ffafr

ffrind

ffôn

ffeindio


ffordd

ceffyl

cyffwrdd

hoffi

caffi



ACEN GROM



COFWICH:

alenorwy

Mae acen grom (to bach) uwchben llafariaid:

1. Os yw'r sain yn hir,

ac

2. Os mai a / e / o / w / y / yw'r llafariaid, (aenorwy)


ac

3. Os mai l / n / r / (aenorwy) yw'r gytsain sy'n dod yn syth ar eu holau ar ddiwedd y gair.

Mae acen grom uwchben:

| | | | | | |
|------|------|-----|-----|------|-----|
| ôl | âi | hÿn | iâ | blêr | tôn |
| ffôn | glân | lôn | sŵn | gŵr | tÿ |

Nid oes acen grom uwchben: nos bach cul to




Defnyddio ffontydd Cymraeg ar eich dyfais

Ar eich PC: 'Insert symbol' neu defnyddwch y botwm ALT

| | | | | |
|---|------------|---|-----------|-----------|
| â | ALT+ 0226 | Â | ALT+ 0194 | tân |
| ê | ALT + 0234 | Ê | ALT+ 0202 | pêl-droed |
| î | ALT + 0238 | Î | ALT+ 0206 | tîm |
| ô | ALT + 0244 | Ô | ALT+ 0212 | ffôn |
| û | ALT + 0251 | Û | ALT+ 0219 | cytûn |
| ŵ | ALT + 0373 | Ŵ | ALT+ 0372 | sŵn |
| ÿ | ALT + 0375 | ÿ | ALT+ 0374 | hÿn |
| ï | ALT + 0239 | Ï | ALT+ 0207 | sgïo |
| é | ALT+ 0233 | É | ALT+ 0201 | yambarél |
| á | ALT + 0225 | Á | ALT+ 0193 | jiráff |


Ar eich MAC: defnyddiwch 'special characters'



DYSGWCH HYN...

Mae gen i...

| | |
|---|-----------------------|
| mae gen i / mae gyda fi ✓ | fi'n cael ✗ |
| mae gennyt ti ✓ | ti'n cael ✗ |
| mae ganddo fe ✓ | fe'n cael ✗ |
| mae ganddi hi ✓ | hi'n cael ✗ |
| mae gan y plant ✓ | mae'r plant yn cael ✗ |
| mae gennym ni ✓ | ni'n cael ✗ |
| mae gennych chi ✓ | chi'n cael ✗ |
| mae ganddyn nhw ✓ | nhw'n cael ✗ |
| e.e. Mae gen i ddigon o arian cinio heddiw <u>NID</u> Fi'n cael digon o arian cinio heddiw | |



DEFNYDDIO'R AIL BERSON YN GWIR

'ti' neu 'chi' ?


ti

Rydym yn defnyddio 'ti'
gydag un person

chi


Rydym yn defnyddio 'chi'
gyda llawer o bobl ac hefyd
i fod yn gwrtais wrth
siarad ag oedolion ac
athrawon

| | |
|---|---------------------------------------|
| <i>dy frawd di (+ treigladd meddal)</i> | <i>eich brawd chi (dim treigladd)</i> |
| <i>os gweli di'n dda</i> | <i>os gwelwch chi'n dda</i> |
| <i>helpa fi</i> | <i>helpwch fi</i> |
| <i>esgusoda fi</i> | <i>esgusodwch fi</i> |
| <i>dere / tyrd (gogleddol)</i> | <i>dewch</i> |
| <i>cer / dos (gogleddol)</i> | <i>ewch</i> |
| <i>paid</i> | <i>peidiwch</i> |
| <i>rho</i> | <i>rhowch</i> |
| <i>bydd yn dawel</i> | <i>byddwch yn dawel</i> |



COFIWCH...

| ✓ | ✗ |
|---|-----------------------------------|
| weithiau | rhai weithiau |
| gormod | rhy gormod |
| y plant i gyd | i gyd o'r plant |
| mae gen i | fi'n cael |
| does dim | mae dim |
| rho lyfr i mi | rho lyfr i fi |
| Mae fy mag yn y car. | Mae bag fi yn car. |
| Roedd ei Dad yn gweithio. | Roedd Dad fe yn gweithio. |
| Does dim beiro gen i/gyda fi. | Dw i ddim gyda beiro. |
| Wna i ofyn i Fam. | Wna i ofyn wrth Fam. |
| Dw i'n meddwl ei fod e'n gyflym. | Dw i'n meddwl bod mae e'n gyflym. |
| maen nhw'n hapus | mae'n nhw'n hapus |
| Rwy'n adnabod/nabod Geraint yn dda | Rwy'n gwybod Geraint yn dda |
| Mae'n neis treulio amser adre | Mae'n neis gwario amser adre |
| | |



CWESTIWN AC ATEB

| | | |
|-----------------------------|------------|----------------|
| Oes gennyt ti frawd? | Oes | Nac Oes |
| Wyt ti'n chwarae hoci heno? | Ydw | Nac Ydw |
| Ydy hi'n bwrw glaw? | Ydy | Nac Ydy |
| Welsoch chi'r gêm neithiwr? | Do | Naddo |
| Dy fag di yw hwn? | Ie | Nage |

'ei' NEU 'eu' ?

Wrth son am rywbeth sy'n perthyn i un person defnyddiwrch **EI**

ei phen hi **ei** gap ef **ei** droed ef

cafodd e ei ddal

roedd hi'n cael ei thalu

Os mae rhywbeth yn perthyn i fwy nag un person, defnyddiwrch **EU**

eu pennau nhw **eu** coesau nhw

eu capiau nhw


eu llyfrau nhw

cawson nhw **eu** dal

roedden nhw'n cael **eu** talu


ei gilydd ✓

eu gilydd ✗




PEIDIO DEFNYDDIO IDIOMAU SEISNIG

| IDIOM ANGHYWIR x | IDIOM CYWIR ✓ |
|-----------------------------|-----------------------------------|
| Mae'r pris wedi mynd i fyny | Mae'r pris wedi codi |
| Gwnes i fy meddwl i fyny | Penderfynais i/Gwnes i benderfynu |
| Troi i fyny i wersi | Mynd i wersi / Cyrraedd gwersi, |
| Edrych ffaith i fyny | Chwilio/ Ymchwilio ffaith |
| Dwyn i fyny | Magu |
| Tân wedi mynd allan | Tân wedi diffodd |
| Beirio wedi rhedeg allan | Beirio wedi sychu |
| Gadael i lawr | Siomi |
| Troi cynnig i lawr | Gwrthod cynnig |
| Troi'r golau ymlaen | Cynnau'r golau |
| Rhoi dy got di ar | Gwisgo dy got di |
| Edrych i mewn i'r mater | Ymchwilio i'r mater |
| Ar ben fy hun | Ar fy mhen fy hun |
| Gloch wedi mynd | Gloch wedi canu |
| Gwario amser | Treulio amser |




ATALNODI - PUNCTUATION

| | | | |
|------------------|-----------------|------------------|---|
| , | Atalnod | Comma | <i>dangos oedi mewn brawddeg</i> |
| . | Atalnod Llawn | Full Stop | <i>dangos diwedd brawddeg</i> |
| : | Colon | Colon | <i>o flaen rhestr, dyfyniad hir neu ail ran y frawddeg sy'n manylu ar y rhan gyntaf</i> |
| ; | Hanner colon | Semi-Colon | <i>dangos oedi hirach na atalnod</i> |
| - | Cysylltnod | Hyphen | <i>cysylltu rhai geiriau e.e. di-sail, môr-forwyn</i> |
| a'r | Collnod | Apostrophe | <i>dangos bod llythyren ar goll</i> |
| ' a ' | Dyfynodau Sengl | Single Quote | <i>dangos teitlau</i> |
| " a " | Dyfynodau | Quotation Marks | <i>dangos pobl yn siarad mewn stori</i> |
| ? | Gofynnod | Question Mark | <i>ar ddiwedd cwestiwn</i> |
| ! | Ebychnod | Exclamation Mark | <i>dangos braw neu syndod</i> |
| â ê î ô û û û | Acen grom | Circumflex | <i>ar ben llafariad hir (weithiau)</i> |
| () | Cromfachau | Brackets | <i>er mwyn ychwnaegu gwybodaeth</i> |
| A B C | Priflythyren | Capital Letter | <i>ar ddechrau brawddeg, enw person / lle, pwnc, teitlau</i> |



TREIGLADAU

| | Treigladau Llaes | Treigladau Trwynol | Treigladau Meddal |
|------|---------------------|-----------------------|----------------------|
| p > | ph | mh | b |
| t > | th | nh | d |
| c > | ch | ngh | g |
| b > | | m | f |
| d > | | n | dd |
| g > | | ng | -diflannu- |
| ll > | | | l |
| m > | | | f |
| rh > | | | r |



RHEOLAU TREIGLO

(y rhai mwyaf pwysig)

| Treigladau Llaes | Treigladau Trwynol | Treigladau Meddal |
|---|--|---|
| <p>Ar ôl:</p> <p>a (and) â gyda</p> <p>tua tra tri (3), chwe (6)</p> <p>ni, na, oni na (nor)</p> <p>ei (benywaidd) i'w (benywaidd)</p> | <p>Ar ôl: fy / yn</p> <p>fy (my) e.e. ar fy mhen fy hun</p> <p>yn (in) e.e. yng Nghaerdydd</p> | <p>Ar ôl yr arddodiaid: am, ar, at, gan, heb , i , o, dan, dros, drwy , hyd ,wrth</p> <p>Ar ôl enwau benywaidd unigol e.e. cadair fach, merch ddiog</p> <p>Enwau benywaidd unigol o flaen y fannod e.e. y gadair, y ferch</p> <p>Ar ôl: dau / dwy (2) ei (gwrywaidd) i'w (gwrywaidd) rhy, neu, pan, mor, rhyw, unrhyw, pa?, ail, dyna, dyma, annwyl</p> |

Dim treigladau ar ôl:

cyn, eithaf, llawer, llawn, mwy, mwyaf, pob, wedi

DEALL CYFARWYDDIADAU / INSTRUCTIONS

*Mae'r terfyniad -WCH yn achosi'r Treigladd Meddal


| CYMRAEG | ENGLISH | DIFFINIAD / DEFINITION |
|-----------------------|----------------------------|--|
| Atebwch | Answer | |
| Awgrymwch | Suggest | cynnig rhywbeth ar gyfer ystyriaeth / to offer something for consideration |
| Beth a olygir gan...? | What is meant by..? | rhaid esbonio term neu air/ you must explain a term or word |
| Brasluniwch | Outline | rhoi prif nodweddion rhywbeth / to give the main features of something |
| Cofnodwch | Record | ysgrifennwch / to write down |
| Cwblhewch | Complete | gorffen / to finish <i>e.e. Cwblhewch y frawddeg yn gywir.</i> |
| Cyfrifwch | Calculate/Count | |
| Cymharwch | Compare | cymharu er mwyn nodi tebygrwydd a gwahaniaeth <i>e.e. Cymharwch y ddwy gerdd hon gan Twm Morys.</i> |
| Cysylltwch | Connect | |
| Dadansoddwch | Analyse | i dorri peth mewn rhannau hanfodol er mwyn gweld sut mae'n gweithio / to break down into essential parts to see how something works <i>e.e. Dadansoddwch arddull y stori fer.</i> |
| Darllenwch | Read | |
| Defnyddiwch | Use | |
| Dehonglwch | Interpret | esbonio ystyr neu arwyddocâd rhywbeth / explain the meaning or significance of something |
| Detholwch | Select | |
| Diffiniwch | Define | mae angen i chi roi ystyr i syniad neu gair / you need to give the meaning of an idea or word |
| Disgrifiwch | Describe | |

| CYMRAEG | ENGLISH | DIFFINIAD / DEFINITION |
|---------------------|-----------------------------|--|
| Dychmygwch | <i>Imagine</i> | |
| Dyfynnwch | <i>Quote</i> | dewis a dethol darn o ysgrifennu fel tystiolaeth a'i gyflwyno mewn "dyfynodau" |
| Dyluniwch | <i>Design</i> | creu cynllun graffig <i>e.e. Dyluniwch gadair ar gyfer plentyn bach.</i> |
| Edrychwch ar... | <i>Look at...</i> | |
| Ehangwch ar | <i>Expand</i> | mae angen i chi wneud rhywbeth yn fwy neu egluro rhywbeth yn fwy manwl |
| Enwch | <i>Name</i> | |
| Esboniwch/Eglurwch | <i>Explain</i> | |
| Gwerthuswch | <i>Evaluate</i> | pwysu a mesur ansawdd, pwysigrwydd, maint neu werth rhywbeth <i>e.e. Gwerthuswch effaith y rhyfel ar fro'r Epynt.</i> |
| Gwiriwch | <i>Check</i> | |
| Gwrandewch ar.. | <i>Listen to...</i> | |
| Lluniwch | <i>Draw up / Construct</i> | |
| Mesurwch | <i>Measure/Quantify</i> | |
| Nodwch | <i>Note</i> | |
| Rhagfynegwch | <i>Predict</i> | dweud beth fydd yn digwydd nesaf <i>e.e. Ar ôl i'r dŵr ferwi bydd e'n anweddu.</i> |
| Rhestrwch | <i>List</i> | |
| Rhowch reswm sut... | <i>Give a reason how...</i> | |
| Teipiwch | <i>Type</i> | |
| Ysgrifennwch | <i>Write</i> | |
| Ystyriwch | <i>Consider</i> | mae angen i chi feddwl am rywbeth cyn ateb y cwestiwn / you need to think about something before answering |

ARDDODIAID - PREPOSITIONS

Beth yw e? Gair sy'n disgrifio'r perthynas rhwng pethau o ran **AMSER** a **LLE**. Ond mae arddodiaid yn cael eu defnyddio mewn sawl idiom hefyd:

| | |
|----------------------------|-------------------------------------|
| wrth y tân | = by the fire |
| rydw i wrth fy modd | = I am in my element |
| wrth gerdded | = walking |
| wrth feddwl amdani | = thinking about it |
| wrth i mi fynd | = as I went / as I go |



Mae arddodiaid yn newid yn ôl y person - maen nhw'n '**rhedeg**':

'wrth'

wrtha i
wrthot ti
wrtho fe
wrthi hi
wrth bawb
wrthon ni
wrthoch chi
wrthyn nhw

'am'

amdanaf i
amdanat ti
amdano fe
amdani hi
am Gareth
amdanon ni
amdanoch chi
amdanyn nhw

'at'

ataf i
atat ti
ato fe
ati hi
at y Prifathro
aton ni
atoch chi
atyn nhw

'o'

ohonof i
ohonot ti
ohono fe
ohoni hi
o Landrindod
ohonon ni
ohonoch chi
ohonyn nhw

'ar'

arna i
arnat ti
arno fe
arni hi
ar y bwrdd
arnon ni
arnoch chi
arnyn nhw

'i'

i mi
i ti
iddo fe
iddi hi
i Sbaen
i ni
i chi
iddyn nhw

'gan'
gennyf i
gennyt ti
ganddo fe
ganddi hi
gennym ni
gennych chi
ganddyn nhw

'heb'
hebddo i
hebddot ti
hebddo fe
hebddi hi
hebddon ni
hebddoch chi
hebddyn nhw

'drwy'
drwyddo i
drwyddot ti
drwyddo fe
drwyddi hi
drwyddon ni
drwyddoch chi
drwyddon nhw

'dros'
drosta i
drostat ti
drosto fe
drosti hi
droston ni
drostoch chi
drostyn nhw

'rhwng'
rhyngo i
rhyngot ti
rhyngddo fe
rhyngddi hi
rhyngon ni
rhyngoch chi
rhyngon nhw

'dan'
dana i
danat ti
dano fe
dani hi
danon ni
danoch chi
dany'n nhw

Sylwch:


Dywedodd e'r ateb wrth ti. x
Dywedodd e'r ateb **wrthot** ti. ✓

Rhaid i ni rannu'r losin rhwng ni. x
Rhaid i ni rannu'r losin **rhyngon** ni. ✓

"Rwy'n falch iawn o chi". x

"Rwy'n falch iawn **ohonoch** chi". ✓

Mae'r plant yn siarad am fi. x
Mae'r plant yn siarad **amdana** i. ✓



ANSODDEIRIAU

| Ansoddair | Cyfystyron | | |
|----------------|---|--|--|
| mawr | anferth <i>roedd yn gi anferth</i> | helaeth <i>mae hi'n broblem helaeth ar hyn o bryd</i> | aruthrol <i>ces i boen aruthrol yn fy nghoes chwith</i> |
| bach | bychan <i>bag bychan sy' gen i</i> | pitw <i>merch fach bitw yw hi</i> | mân <i>cana'r adar mân</i> |
| da | campus <i>darllenwr campus yw ef</i> | buddiol <i>mae cadw'n heini yn fuddiol i'ch iechyd</i> | effeithiol <i>roedd ef yn athro Cemeg effeithiol iawn</i> |
| pert | hardd <i>gardd hardd sydd gyda nhw</i> | prydfferth <i>aderyn prydfferth ydy'r paun</i> | teg <i>mis teg yw mis Mai</i> |
| crac | dig <i>dyn dig ydy Dad weithiau</i> | gandryll <i>cafodd ei char ei ddwyn ac roedd hi'n gandryll!</i> | cynddieriog <i>gwaeddodd yn gynddeiriog arnaf i</i> |
| caredig | hael <i>mae Steffan yn berson hael dros ben</i> | hynaws <i>menyw hynaws ydy Mrs Jones bob tro</i> | ystyriol <i>rhanna fy ffrind ei losin 'da fi, mae e mor ystyriol</i> |
| hapus | llawen <i>rhedodd y ci yn llawen ar ôl ei bêl</i> | llon <i>gweithiodd y plant yn llon ar eu gwatih Celf</i> | dedwydd <i>heddwes dedwydd iawn ydy PC Huws</i> |
| trist | trwmgalon <i>rwyn teimlo'n drwmgalon heddiw</i> | blin <i>roeddwn i'n flin i glywed eich newyddion</i> | prudd <i>wyneb prudd sydd ganddo fe o hyd</i> |
| neis | hwyliog <i>merch fach hwyliog ydy Catrin</i> | braf <i>mae'n braf gweld cymaint ohonoch yma heddiw</i> | serchus <i>mae Gwilym yn serchus iawn bob tro</i> |
| cas | atgas <i>mae ysgytlaeth siocled yn atgas gennyf i</i> | ffiaidd <i>anifail ffiaidd ydy'r cadno</i> | milain <i>ymosododd yr eryr yn filain ar y carw</i> |
| siŵr | sicr <i>mae'n eitha' sicr ei fod wedi mynd i'w wers</i> | diau <i>Lerpwl yw'r tîm pêl-droed gorau ac mae hynny'n ddiau</i> | pendant <i>yn bendant, Hanes yw'r pwnc gorau yn yr ysgol</i> |
| llawer | sawl <i>buon nhw'n siopa yng Nghaerdydd sawl gwaith</i> | nifer <i>mae 'na nifer o bobl yn mynd i'r capel bob dydd Sul</i> | di-ri <i>ceir anifeiliaid di-ri ar ein fferm ni</i> |

CYMHARU ANSODDEIRIAU

| ANSODDAIR | CYFARTAL | CYMHAROL | EITHAF |
|---------------------|--|------------------|------------|
| pwysig | mor <u>b</u> wysig â cyn <u>b</u> wysiced â | yn fwy pwysig na | y pwysicaf |
| tal | mor <u>d</u> al â cyn <u>d</u> aled â | yn fwy tal na | y talaf |
| Ansoddeiriau Afreol | | | |
| da | cystal â/ag | gwell na/nag | gorau |
| drwg | cynddrwg â/ag | gwaeth na/nag | gwaethaf |
| mawr | cymaint â/ag | mwy na/nag | mwyaf |
| bach | cynlleied â/ag | llai na/nag | lleiaf |
| hawdd | cynhawsed â/ag | haws na/nag | hawsaf |
| uchel | cyn uched â/ag | uwch na/nag | uchaf |
| isel | cyn ised â/ag | is na/nag | isaf |
| uchel | cyn uched â/ag | uwch na/nag | uchaf |

Er enghraifft:


Mae rygbi **cystal** â phêl-droed.

Mae dinas Abertawe **cymaint** â Chasnewydd.

Mae'r Scarlets yn **well** na'r Gweilch.

Mae'r Dreigiau yn **waeth** na'r Scarlets.

Y Scarlets ydy'r **gorau**. Y Gleision yw'r **gwaethaf**.



CYMHARIAETHAU / CYFFELYBIAETHAU

Cymhariaeth? Pan rydych chi'n defnyddio 'mor__â__' er mwyn cymharu.

Cyffelybiaeth? Pan rydych chi'n defnyddio 'fel' / 'megis' er mwyn cymharu.

mor ddistaw â'r bedd

mor las â'r môr

mor araf â malwoden

mor drwm â plwm

mor ddu â'r glo

mor llawen â'r gog

- as quiet as the grave

- as blue as the sea

- as slow as a snail

- as heavy as lead

- as black as coal

- as happy as a lark (cuckoo)



yn goch fel gwaed

yn ysgafn fel pluen

nos fel y fagddu

mynydd megis mwgwd gwyn

croen fel sidan

- red like blood

- as light as a feather

- a night so black

- a mountain like a white mask

- skin like silk

TROSIAD

Beth yw e? Mae trosiad (metaphor) yn disgrifio syniad wrth ddweud bod un peth yn rhywbeth arall.

Mae e'n **gawr** o ddyn ar y cae rygbi.

Mae cariad yn **rhosyn**

Mae ysgol yn **uffern!**

Brenin y jyngl yw'r llew.

"*All the world's a **stage**.*" (Shakespeare)


(dyn = cawr)

(cariad = rhosyn)

(ysgol = uffern)

(brenin = llew)

(world = stage)



"**Mae'r cranc yn siswrn, yn torri'r tonnau bach.**

Mae ei wyneb yn haul oren, yn llogi'r tywod.

Athro dawns yw e, yn aros am ei ddisgyblion".

ENWAU ANIFEILIAID

| | | | |
|------------------------|--------------------------|------------------------------|----------------------|
| aderyn (adar) | bird(-s) | gwennol (gwenoliaid) | swallow(-s) |
| arth (eirth) | bear(-s) | gwenynen (gwenyn) | bee(-s) |
| barcut(-iaid) | kite(-s) | gwiwer(-od) | squirrel(-s) |
| blaidd (bleiddiaid) | wolf (wolves) | gwyllan(-od) | seagulls(-s) |
| brân (brain) | crow(-s) | iâr (ieir) | chicken(-s) |
| buwch (gwartheg) | cow(-s) | hwyaden (hwyaid) | duck(-s) |
| cadno(-aid) | fox(-es) | llo (lloi) | calf (calves) |
| ceffyl(-au) | horse(-s) | llygoden (llygod) | mouse (mice) |
| ci (cŵn) | dog(-s) | llysywen (llyswennod) | eel(-s) |
| cimwch (cimychiaid) | lobster(-s) | madfall(-od) | lizard(-s) |
| cleren (clêr) | fly(flies) | malwoden (malwod) | snail(-s) |
| corgi (corgwn) | corgi(-s) | march (meirch) | stallion(-s) |
| corryn (corynnod) | spider(-s) | neidr (nadroedd) | snake(-s) |
| cwningen (cwningod) | rabbit(-s) | pioden (piod) | magpie(-s) |
| dafad (defaid) | sheep | slefren fôr (slefrod môr) | jellyfish |
| dyfrgi (dyfrgwn) | otter(-s) | tylluan(-od) | owl(-s) |
| eryr(-od) | eagle | ystum(-od) | bat(-s) |

Berfau Rheolaidd

(h.y. berfau sy'n dilyn yr un rheol)

Yr Amser Gorffennol

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|--------------------------------|----------|
| 1af | _ais i | _on ni |
| 2il | _aist ti | _och chi |
| 3ydd | _odd ef _odd hi _odd enw | _on nhw |

e.e. Pryn + ais i = **Prynais i** (yn lle: Roeddwn i wedi prynu)
Bwyt + on nhw = **Bwyton nhw** (yn lle: Roedden nhw'n bwyta)

| | |
|---|---|
| SYLWCH: <u>Ph</u> rynais i ddim <u>F</u> wyton nhw ddim | <u>B</u> rynais i? <u>F</u> wyton nhw? |
|---|---|

Yr Amser Presennol

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|--------------------------|----------|
| 1af | _af i | _wn ni |
| 2il | _i di | _wch chi |
| 3ydd | _a fe _a hi _a enw | _an nhw |

e.e. Gwyli + a Twm = **Gwylia Twm** (yn lle: Mae Twm yn gwilio)
Tal + i di = **Tali di** (yn lle: Rwyd ti'n talu)

| | |
|--|--|
| SYLWCH: <u>W</u> ylia Twm ddim <u>T</u> hali di ddim | <u>W</u> ylia Twm? <u>D</u> ali di? |
|--|--|

Yr Amser Amherffaith

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|-----------------------------|----------|
| 1af | _wn i | _en ni |
| 2il | _et ti | _ech chi |
| 3ydd | _ai ef _ai hi _ai enw | _en nhw |

e.e. Cerdd + ech chi = **Cerddech chi** (yn lle: Roeddwn i'n arfer cerdded)
Darllen + en ni = **Darllenen ni** (yn lle: Roedden ni'n arfer darllen)

| | |
|--|------------------------|
| <u>SYLWCH:</u> <u>C</u> herddech chi ddim | <u>G</u> erddech chi? |
| <u>D</u> darllenen ni ddim | <u>D</u> darllenen ni? |

Yr Amser Dyfodol

Rheolau Treiglo: ar ôl 'n: ansoddeiriau'n treiglo'n feddal [byddaf i'n **d**rist]
enwau'n treiglo'n feddal [byddi di'n **d**doctor]
berfenwau ddim yn treiglo [bydd hi'n **g**weithio]

| | Unigol | Lluosog |
|------|--|-----------------|
| 1af | byddaf i('n) | byddwn ni('n) |
| 2il | byddi di('n) | byddwch chi('n) |
| 3ydd | bydd ef (yn) bydd hi('n) bydd enw('n / yn) | byddan nhw('n) |

| | |
|---|----------------------|
| <u>SYLWCH:</u> <u>F</u> yddaf i ddim | <u>F</u> yddaf i? |
| <u>F</u> yddwch chi ddim | <u>F</u> yddwch chi? |

Berfau Afreolaidd

(h.y. berfau sy ddim yn dilyn yr un rheol)

MYND

Yr Amser Gorffennol

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|--------------------|-------------|
| 1af | es i | aethon ni |
| 2il | est ti | aethoch chi |
| 3ydd | aeth ef aeth hi | aethon nhw |

Yr Amser Presennol

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|--------------|----------|
| 1af | af i | awn ni |
| 2il | ei di | ewch chi |
| 3ydd | â ef â hi | ân nhw |

Yr Amser Amherffaith

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|----------------|----------|
| 1af | awn i | aem ni |
| 2il | ait ti | aech chi |
| 3ydd | âi ef âi hi | aen nhw |

e.e. **Awn i i nofio bob bore Mercher** (yn lle: Roeddwn i'n mynd i nofio bob bore Mercher)
Aem ni i Ffrainc bob haf (yn lle: Roedden ni'n arfer mynd i Ffrainc bob haf)

GWNEUD

Yr Amser Gorffennol

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|--------------------------|----------------|
| 1af | gwnes i | gwnaethon ni |
| 2il | gwneist ti | gwnaethoch chi |
| 3ydd | gwnaeth ef gwnaeth hi | gwnaethon nhw |

Yr Amser Presennol

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|--------------------|-------------|
| 1af | gwnaf i | gwnawn ni |
| 2il | gwnei di | gwnewch chi |
| 3ydd | gwna ef gwna hi | gwnân nhw |

Yr Amser Amherffaith

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|----------------------|-------------|
| 1af | gwnawn i | gwnaem ni |
| 2il | gwnaist ti | gwnaech chi |
| 3ydd | gwnâi ef gwnâi hi | gwnaen nhw |

- e.e. **Gwnâi ef ginio rhost bob dydd Sul** (yn lle: Roedd e'n gwneud cinio rhost bob dydd Sul)
Wnaech chi gardiau Nadolig eich hunain pan oeddech yn ifanc?
 (yn lle: Oeddech chi'n arfer gwneud cardiau Nadolig eich hunain pan oeddech chi'n ifanc?)

DOD

Yr Amser Gorffennol

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|----------------------|--------------|
| 1af | des i | daethon ni |
| 2il | dest ti | daethoch chi |
| 3ydd | daeth ef daeth hi | daethon nhw |

Yr Amser Presennol

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|------------------|-----------|
| 1af | dof i | down ni |
| 2il | doi di | dewch chi |
| 3ydd | daw ef daw hi | dôn nhw |

Yr Amser Amherffaith

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|----------------------|------------|
| 1af | deuwn i | deuem ni |
| 2il | deuit ti | deuech chi |
| 3ydd | deuai ef deuai hi | deuen nhw |

e.e. **Deuit ti i'r ysgol yn gynnar bob dydd Llun**

(yn lle: Roedd det ti'n dod i'r ysgol yn gynnar bob dydd Llun)

Ddeuai hi ddim i'r deintydd bob chwe mis

(yn lle: Doedd hi ddim yn arfer dod i'r deintydd bob chwe mis)

CAEL

Yr Amser Gorffennol

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|------------------------|-------------|
| 1af | ces i | cawson ni |
| 2il | cest ti | cawsoch chi |
| 3ydd | cafodd ef cafodd hi | cawson nhw |

Yr Amser Presennol

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|----------------------|-----------|
| 1af | caf i | cawn ni |
| 2il | cei di | cewch chi |
| 3ydd | caiff ef caiff hi | cân nhw |

Yr Amser Amherffaith

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|------------------|-----------|
| 1af | cawn i | caem ni |
| 2il | caet ti | caech chi |
| 3ydd | câi ef câi hi | caen nhw |

e.e. **Gaen nhw fynd i'r ffair bob mis Mai?**

(yn lle: Oedden nhw'n cael mynd i'r ffair bob mis Mai?)

Cawn i lond llwyth o hwyl 'nôl yn y '60au

(yn lle: Roeddwn i'n cael llond llwyth o hwyl 'nôl yn y '60au)

BOD

Yr Amser Presennol

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|------------------|------------|
| 1af | rydw i / rwyf i | rydyn ni |
| 2il | rwyf ti | rydych chi |
| 3ydd | mae ef mae hi | maen nhw |

Yr Amser Gorffennol

POB UN YN ACHOSI TREIGLAD MEDDAL

| | Unigol | Lluosog |
|------|----------------------|-----------|
| 1af | bues i | buon ni |
| 2il | buest ti | buoch chi |
| 3ydd | buodd ef buodd hi | buon nhw |

Yr Amser Amherffaith


| | Unigol | Lluosog |
|------|--|---|
| 1af | roeddwn i ⁽ⁿ⁾ / byddwn i ⁽ⁿ⁾ | roedden ni ⁽ⁿ⁾ / byddem ni ⁽ⁿ⁾ |
| 2il | roeddet ti ⁽ⁿ⁾ / byddet ti ⁽ⁿ⁾ | roeddech chi ⁽ⁿ⁾ / byddech chi ⁽ⁿ⁾ |
| 3ydd | roedd ef ^(yn) / byddai ef ^(yn) roedd hi ⁽ⁿ⁾ / byddai hi ⁽ⁿ⁾ | roedden nhw ⁽ⁿ⁾ / bydden nhw ⁽ⁿ⁾ |

- e.e. Byddwn i'n cael llond bol o chwarae hoci yn yr ysgol uwchardd.
Roedden nhw'n arfer byw drws nesa' i ni tua pum mlynedd yn ôl.
Doeddech chi ddim yn mwynhau mynd i'r gemau pêl-droed.

ENWAU LLEFYDD Y BYD


| Ewrop | | | |
|--------------------------------|--------------------------|----------------------------|-----------------|
| Cymru | Wales | Yr Iseldiroedd | The Netherlands |
| Lloegr | England | Yr Eidal | Italy |
| Yr Alban | Scotland | Gwlad Groeg | Greece |
| Gogledd Iwerddon | Northern Ireland | Yr Almaen | Germany |
| Iwerddon | Eire | Gwlad Belg | Belgium |
| Prydain Fawr | Great Britain | Rwsia | Russia |
| Y Deyrnas Unedig | The United Kingdom | Hwngari | Hungary |
| Ffrainc | France | Wcráin | Ukraine |
| Llydaw | Brittany | Y Ffindir | Finland |
| Sbaen | Spain | Gwlad yr Iâ | Iceland |
| Twrci | Turkey | Denmarc | Denmark |
| Y Swistir | Switzerland | Norwy | Norway |
| Ynys Manaw | Isle of Man | Yr Ynysoedd Dedwydd | Canary Islands |
| Gogledd America | | | |
| Unol Daleithiau America | United States of America | Mecsico | Mexico |
| De America | | | |
| Patagonia / Y Wladfa | Patagonia | Yr Ariannin | Argentina |
| Brasil | Brazil | Wrwgwái | Uruguay |
| Asia | | | |
| Siapan | Japan | Tseina / China | China |
| De Corea | South Korea | Gogledd Corea | North Korea |
| Affrica / Yr Affrig | | | |
| De Affrig | South Africa | Yr Aifft | Egypt |
| Awstralasia | | | |
| Awstralia | Australia | Seland Newydd | New Zealand |

Cymru



Enwau Llefydd Canolbarth Cymru

| MAESYFED | | | |
|--------------------|--------------------------------------|--------------------|-----------------------|
| Llandrindod | - | Llanllyr | <i>Llanyre</i> |
| Rhaeadr Gwy | <i>Rhayader</i> | Hawy | <i>Howey</i> |
| Llanandras | <i>Presteigne</i> | Aberedwy | <i>Aberedw</i> |
| Tref-y-Clo | <i>Knighton</i> | Llanelwedd | - |
| Y Bontnewydd-ar-Wy | <i>Newbridge-on-Wye</i> | Y Groes | <i>Cross Gates</i> |
| Doldowlod | - | Pontffranc | <i>Franksbridge</i> |
| Abaty Cwm Hir | <i>Abbey Cwm Hir</i> | Maesyfed | <i>New Radnor</i> |
| Sir Faesyfed | <i>Radnorshire</i> | Tŷ Cant | <i>Hundred House</i> |
| Cwm Elan | <i>Elan Valley</i> | Bochrwyd | <i>Boughrood</i> |
| Cleirwy | <i>Clyro</i> | Nantmel | - |
| Glascwm | - | Llanbister | - |
| Llandegla | Llandegley | Llanfair Llythynwg | <i>Gladestry</i> |
| BRYCHEINIOG | | | |
| Llanfair-ym-Muallt | <i>Builth Wells</i> | Cilmeri | <i>Cilmery</i> |
| Aberhonddu | <i>Brecon</i> | Garth | - |
| Llanwrtyd | - | Beulah | - |
| Talgarth | - | Abergwesyn | - |
| Crughywel | <i>Crickhowell</i> | Llyswen | - |
| Y Gelli Gandryll | <i>Hay-on-Wye</i> | Y Clas-ar-Wy | <i>Glasbury</i> |
| Mynydd Epynt | <i>The Epynt</i> | Bronllys | - |
| Maesmynis | - | Llan-gors | <i>Llangorse</i> |
| Llanynis | - | Llyn Syfaddan | <i>Llangorse Lake</i> |
| Capel Uchaf | <i>Upper Chapel</i> | Libanus | - |
| Capel Isaf | <i>Lower Chapel</i> | Pontsenni | <i>Sennybridge</i> |
| Cwmbach Llechryd | <i>Builth Road / Cwmbach</i> | Trecastell | <i>Trecastle</i> |
| | | Ystradgynlais | - |
| Buallt / Buellt | <i>The ancient kingdom of Builth</i> | Sir Frycheiniog | <i>Breconshire</i> |
| MALDWYN | | | |
| Y Drenewydd | <i>Newtown</i> | Y Trallwng | <i>Welshpool</i> |



IDIOMAU / PRIOD-DDULLIAU

Beth yw idiom? Mae gan idiom ddwy ystyr: ystyr llythrennol a'r ystyr a ddeallir bob dydd. Hefyd mae idiom yn ymadrodd sy'n wahanol o ran strwythur i strwythur cyffredin yr iaith.

Bwrw hen wragedd a ffyn - **glawio'n drwm iawn**

Yn llygaid ei le/ei lle - **yn gywir, yn iawn.**

Gwneud eich gorau glas.

Siarad drwy ei het - **siarad heb wneud synnwyr**

A'i ben yn ei blu / A'i phen yn ei phlu - **yn drist, yn pwdu, yn ddigalon**

A'i wynt yn ei ddwrn / A'i gwynt yn ei dwrn - **ar frys**

Ar y gweill - **yn cael ei baratoi**

Ar bigau'r drain - **yn nerfus iawn**

Byth a beunydd - **yn ddiidwedd, o hyd**

Cannwyll fy llygad - **fy hoff un, ffefryn**

Cael llond bol - **cael digon**

Canmol i'r cymylau - **canmol rhywun yn fawr iawn**

Cnoi cil - **ystyried, meddwl am rywbeth**

Cochi at ei glustiau / ei chlustiau - **to blush**

Codi cyn cŵn Caer - **codi'n gynnar iawn**

Chwilen yn ei ben / ei phen - **obsesiwn am rywbeth**

Dan ei sang - **yn llawn dop, yn orlawn**

Dim Cymraeg rhyngddynt - **ddim yn siarad â'i gilydd**

Dim llawn llathen - **ddim yn gall**

Dros ben llestri - **ymddwyn yn afresymol**

Heb siw na miw - **heb sŵn o gwbl**

Fel lladd nadroedd - **yn brysur dros ben**

Y drwg yn y caws - **y broblem yw...**

Gwneud cawl o bethau - **gwneud smonach, llanast**

Gwyn dy fyd - **rwy't ti'n lwcus iawn**

Malu awyr - **siarad rwtsh, dwli**

Newydd sbon - **hollol newydd**

Rhoi'r ffidil yn y to - **rhoi'r gorau iddi**

Y to ifanc - **y genhedlaeth ifanc, pobl ifanc**